# Darganfod Hen Dai Cymreig
# Discovering Old Welsh Houses

Rhwng 2005 a 2012 a elwir hefyd yn Brosiect Dendrocronoleg Eryri, yna Prosiect Dendrocronoleg Gogledd Cymru ac yna Gr p Dyddio Hen DaiCymreig.

# RHOS,
# (Tŷ'n y Rhos)

## Minffordd, Penrhyndeudraeth.

## Gwynedd



# House History

Rhan o Hanes y Ta'i Deuluoedd

Author: Nan Griffiths,

11 chwefror 2012

Adolygwyd 2013 ac Ailgyhoeddwyd 2025

Ysgrifennwyd yn newis iaith y gwirfoddolwyr aír ymchwilwyr ac yn cynnwys gwybodaeth a gafwyd hyd yn hyn.

NODER BOD POB T YN Y PROSIECT HWN YN D PREIFAT AC NAD OES MYNEDIAD I DDIM UN OHONYNT

---

©Discovering Old Welsh Houses Group

Rhif Elusen Gofrestredig: No.1131782 Registered Charity

# Rhos, (Ty'n-y-rhos),

# Minffordd, Penrhyndeudraeth, Gwynedd

**LL48 6HP.**

Plwyf Llanfrothen, yn ymylu ar blwyf Llanfihangel-y-traethau, Meirionnydd.

**Crynodeb**

Sefydlwyd pentref Minffordd yn y 19gan. pan adeiladwyd nifer o dai ar hyd y ffordd newydd a arweiniai o gyfeiriad Penrhyndeudraeth at y Cob. Ond mae'r rhan isaf, a adnabyddir fel Pentra, ganrifoedd yn hŷn. Cyn codi'r Cob yn 1812 roedd yn rhaid i'r teithwyr oedd am gyrraedd Sir Gaernarfon groesi'r Traeth Mawr gyda'i bedair milltir o dywod peryglus. Roedd mwy nag ungroesfan ar draws y Traeth ond mae haneswyr diweddar yn gytun mai'r llwybr o Finffordd oedd y mwyaf diogel gan fod y tywod yn fwy cadarn a'r dŵr yno yn fwy bâs yn y fan honno.

Roedd ar y teithwyr angen bwyd a diod a gorffwys ac roedd arian da i'w wneud o ddarparu ar gyfer eu hanghenion. Ar ben yr allt sy'n arwain o'r Sgwar tuag at Pentra safai yr Hen Gegin lle gellid cael bwyd a diod. Roedd modd hefyd i'r teithwyr blinedig orffwyso a thorri eu syched yn hen ffermdy a thafarn Minffordd, a oedd ar fin y llwybr ar draws y traeth ac a roddodd ei enw i'r pentref. Roedd morwyr, tywyswyr, pysgotwyr, cychwyr ac adeiladwyr llongau oll yn cael bywoliaeth dda o'r Traeth Mawr.

Yn aml iawn byddai'n rhaid i'r teithwyr aros, weithiau ddyddiau lawer, i'r tywydd wella cyn y gallent groesi'r Traeth. Gwesty i deithwyr fu Rhos am ganrifoedd, ond yn y 15gan. a chyn hynny efallai,roedd yn windy.

Yn ôl tystiolaeth dendrocronoleg mae trawstiau yr adeilad presennol yn dyddio o 1572. Y tu ôl i'rprifadeilad roedd bwthyn cegin-a-chroglofft; dim ond y simnai fawr sydd wedi goroesi o hwnnw.

Mae ansicrwydd ynglŷn â pherchnogaeth Rhos dros y canrifoedd er bod rhai cofnodion swyddogol ar gael. Ar ôl agor y Cob yn 1812 nid oedd angen gwesty i deithwyr ac addaswyd y dafarn yn fferm fechan rywbryd cyn 1832. Roedd y perchennog, Edward Pryce Lloyd, wedi rhoi ei stad ar y farchnad yn 1832 a thair blynedd yn ddiweddarach llwyddodd i'w gwerthu a daeth Rhos yn rhan o stad Castell Deudraeth. Dymchwelwyd y bwthyn tua diwedd y 19gan. a chodwyd adeilad newydd yn ei le ac agorwyd adwy o'r Hen Gegin i'r Rŵm Ffrynt.

Roedd dipyn o dir yn rhan o'r eiddo, hyd at 26 acer ar un cyfnod yn ychwanegol at y tir comin. Roedd llawer o goed ffrwythau o gwmpas y tŷ a dringai hopys i fyny'r coed eirin yng ngwaelod yr ardd a chedwid rhes o gychod gwenyn i gael mêl a chwyr gwenyn i roi sglein ar y dodrefn derw ac i wneud medd. Enwau'r caeau yn ôl map Sêl 1853 oedd:

Weirglodd y Rhos, Bryn Gwyn, Dwnan, Buarth Newydd, Cae Mawr, Pen Barac, Gors.

Prynwyd Rhos yn sêl Castell Deudraeth yn 1922 gan y tenant, Mrs Ann Davies, fy nain, ac er i'r adeilad fod yn eiddo i sefydliadau diwydiannol am gyfnod llwyddais i'w brynu yn 1996. Y fi, Nan, sy'n byw yno ar hyn o bryd. Gwyddys bod o leiaf deg cenhedlaeth o'r un teulu wedi byw yn Rhos.

Nan Griffiths. Mehefin 2013.

# Pennod 1

Yn y rhan hon eglurir lleoliad yr adeilad, rhai nodweddion o'i
gylch ac amlinelliad o gynllun hen dai eraill o'r un cyfnod yn yr ardal. Yna trafodir pob ystafell ac ambell dodre

**RHOS (Ty'n-y-rhos)**

**Y Safle**

Saif Rhos ar oledd bychan yn wynebu'r de-orllewin yn yr hen ran o bentref Minffordd. Fel y gellid disgwyl o hen safle ddiwydiannol brysur erys rhai olion o dan wyneb y tir o'i amgylch. Dywedodd ein hadeiladwr ei fod wedi cael hyd i gei cerrig tua hanner y ffordd i lawr yr ardd gefn (sy'n wynebu'r chwarel) ond erbyn i ni gyrraedd i'w weld roedd wedi ei ailorchuddio. O dan y pridd yn yr ardd ger Glan Don mae rhes o risiau - yn arwain o'r barics, mae'n debyg at y gwaith adeiladu llongau ar lan y dŵr. Yn ddiweddar, o dan yr hen dderwen, cafwyd hyd i ddolen haearn a ddefnyddiai'r cychwr i sicrhau'r cwch yn y tywod. Honnai Anti Maggie bod dolen haearn rhywle yn yr ardd, uwchlaw Y Graig, wedi ei sodro yno i angori llongau. Mae rhes o grawiau ar waelod yr ardd gefn. Cafwyd hyd i
hen ddarnau o arian yng ngwaelod gardd Rhos, y cynharaf ohonynt yn dyddio o 1585, arian a syrthiodd i'r dŵr wrth dalu'r cychwr neu'r tywyswr efallai.

Gerllaw mae tŷ o'r enw Y Graig a oedd hyd yn weddol diweddar yn fwthyn unllawr bychan, yno yr oedd y cychwr yn byw; ef oedd yn rhedeg y fferi. Nid nepell, uwch Ffordd Dan-glannau saif Lloc Meurig. Ystyr "lloc" yw buarth neu ffald ("pound") sef lle i gadw anifeiliaid. Mae'n amheus a oedd y porthmyn yn gyrru anifeiliaid ar draws y Traeth gan ei fod mor gyfnewidiol a pheryglus ond mae'n bosibl bod ceffylau'r teithwyr yn cael eu lletya a'u cyfnewid yno.

Mae pistyll ar draws y ffordd i Rhos, sef Pistyll y Swallow neu Bistyll y Rhos, a ffrwd yn rhedeg rhwng gardd Rhos a gardd Glan Don ac yr oedd hyd yn ddiweddar bont fechan o lechi drosti yn cysylltu'r ddau dŷ. Yn ôl haneswyr lleol enwyd y pistyll ar ôl llong o'r enw The Swallow a adeiladwyd yn Rhos yn y 18gan. Ond o weld grym y lli ar ôl glaw mawr tybed ai llygriad ydyw o Bistyll Ewynnol (fel yn achos y Swallow Falls ym Metws y Coed). Mae'r pistyll a'r nant yn hollol sych yn yr haf felly rhaid fod y bragdy yn yn cael ei ddŵr o ffynnon ac mae amryw ohonynt o gwmpas. Mae hopys yn dal i dyfu yng ngwaelod y berllan ar y ffin â Graig, sy'n profi nad oedd y môr yn dod yn agos iawn at y tŷ.

Nid nepell, gyferbyn â thyddyn Hen Gaeau, mae bryncyn a elwir yn Pen yr Orsedd, uwchlaw cae o'r enw Bryn Gwyn. Yn ôl Syr Ifor Williams ystyr "gorsedd" yw "lle canolog lle cynhelid llys, hen le cysegredig neu gladdfa" . Yn ôl y chwedl yn Bryn Gwyn y claddwyd Gwŷr Llŷn wedi ddynt gael eu herlid o Lanfrothen a'u lladd wedi iddynt ladd yr offeiriad yn 14????
.

Mae simnai fawr a thalcen y brif ystafell (Yr Hen Gegin) wedi eu hadeiladu i mewn i'r graig. Mae'n bur debyg fod yr adeilad wedi ei wyngalchu, fel yr oedd holl adeiladau'r cyfnod Tuduraidd, er mwyn ei ddiddosi rhag lleithder a'i wneud yn hawdd i'r morwyr a'r teithwyr ei weld o bell. Roedd calch yn cael ei fewnforio i fyny'r Traeth Mawr. Efallai mai to gwellt fyddai i'r adeiladau a lloriau pridd ond cafwyd tystiolaeth yn ddiweddar, wrth agor ffordd osgoi Porthmadog, bod llechi yn cael eu defnyddio i doi yn yr ardal cyn belled yn ôl â chyfnod y Rhufeiniaid.

Mae'r trigolion lleol, a minnau, yn cofio'r Bragdy gyferbyn â'r tŷ a adnabyddid fel Bragdy Plas Newydd. Ar wahan i'r cwt mochyn, nid oes bellach adfeilion o gwmpas y tŷ ond mae'n amlwg bod nifer fawr o adeiladau cyfagos wedi eu dymchwel heb fawr ddim o'u hôl. Diflannodd y bragdy, y tŷ gwair, y stabal, yr hen fwthyn, y barics yn Pentra ac ar safle Tai Sets, a hen ffermdy Minffordd. Byddai angen nifer dda o stablau. Erys peth olion ond buasai'r cerrig gorau wedi cael eu hail ddefnyddio, fel y defnyddiwyd cerrig y tŷ gwair i ailadeiladu'r wal isel o amgylch y tŷ a'r ardd yn 2003. Tybed a oedd yna annedd-dai bychain ar safle Graig a Glan Don (a adeiladwyd ddiwedd y 18gan) gan fod lluniau

o dai o boptu'r llwybr ar draws y Traeth i'w gweld ar fap y cartograffydd enwog John Ogilby yn 1675.

Ty'n-y-rhos oedd yr hen enw. Ystyr "rhos" yn y cyswllt hwn yw, nid rhostir, ond tir lle mae llif afon wedi erydu bwlch ger ei glannau. Cyfeiria Syr John Wynn o Wydir ato fel Ty'n-y-Rhos yn y 16gan. ac eto yn nogfen Porth yr Aur yn 1519 ond erbyn cofnod Treth y Goron yn 1623 "Rhos" yn syml ydoedd.

**Ty'n-y-rhos c.1450 - 1835**

Mae Syr John Wynn o Wydir yn cyfeirio at Ty'n-y-rhos fel gwindy yn 1462 ond nid yr adeilad presennol oedd hwnnw, oherwydd gwyddys o brofion dendrocronoleg mai yn 1572 yr adeiladwyd y tŷ carreg presennol. Yng nghyfnod Syr John Tai Neuadd fyddai'r cyfan yng Nghymru, sef tai heb simnai ond gyda lle tân yng nghanol y llawr gyda'r mwg yn dianc drwy'r to. Coed derw cadarn fyddai'r defnydd arferol gyda'r nenffyrch yn ymestyn o'r llawr i'r to, ni ddefnyddid carreg. Felly mae'n debyg bod yr hen dŷ wedi ei ddymchwel a thŷ
carreg deulawr wedi ei godi yn ei le yn ystod y prysurdeb adeiladu mawr oedd yn yr ardal yn y 6gan. Yn anffodus mae amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd gweddilion y nenfforch sydd yn Siambar. 1
Ac os cywir yr amheuon (sef mai coedyn ydyw wedi ei fenthyca o adeilad arall) ymddengys nad oes dim o'r "hen dŷ" ar ôl. Buasai'n hynod ddiddorol cael dyddio'r nenfforch i weld a allai fod ar un adeg yn rhan o'r hen dŷ.

Arferwn i gredu mai'r hen fwthyn a safai y tu ôl i'r prif dŷ oedd y tŷ gwreiddiol. Mae simnai fawr hwnnw a'i swmer (bressemer) wedi goroesi yn y tŷ boiler. Yn anffodus ni ellir dyddio hwnnw na'r darn nenfforch (cruck) sydd yn y Siambar chwaith gyda'r technegau sydd ar gael ar hyn o bryd. (Yn aml ni all dendrocronoleg ddyddio coedyn sydd wedi tyfu yn gyflym ond gobeithio y gellir gwneud hynny yn y dyfodol drwy ddull radio carbon. )

Pan godwyd y to tua 1920 cadwyd yr hen ddistiau gan osod rhai newydd uwch eu pennau. Nid oes ôl olion mwg ar yr hen drawstiau ac felly ni fuont yn rhan o'r hen Dŷ Neuadd cyn 1572.

**Y Tai Uned**

Daeth rhai elfennau cudd i'r golwg pan dynnwyd yr hen blastar wrth adfer Rhos yn 1996 sydd yn fodd i ddeall rhywfaint am hanes yr adeilad. Yr oedd yn gyffredin yn Eryri, yn enwedig mewn tai oedd yn gysylltiedig â theulu Gwydir fel Parc, Llanfrothen a Phlas Newydd, i godi adeilad ar wahan pan oedd y teulu angen ehangu, yn hytrach nag adeiladu estyniad. Roedd pob tŷ yn gyflawn ac yn gwbl annibynnol â'i gilydd ac ar ddechrau'r cyfnod adeiladu (16 a 17gan.) nid oedd mynedfa rhwng y naill dŷ â'r llall. Roedd y ddau dŷ (neu fwy na dau weithiau) yn aml wedi eu codi ar yr un pryd ond oherwydd bod yr ail dŷ yn israddol ei adeiladwiath ymddangosai hwnnw yn fwy hynafol. Mae'n fwy na phosibl, o gofio mai eiddo i stad Parc oedd Rhos, bod yr hen fwthyn a'r prif dŷ yn ddau adeilad ar wahan hyd nes eu cysylltu a'u huno yn ddiweddarach - efallai ddiwedd y 19gan. pan agorwyd yr adwy gul gyda'i grisiau sy'n arwain o'r Hen Gegin i'r Rŵm Ffrynt. Roedd y ddau dŷ yn cael eu rhentu ar wahan a'u rhestru ar wahan hyd Cyfrifiad 1881, y naill yn Rhos Farm a'r llall yn Rhos Cottage.

Credir ei bod yn arferiad i weddw fyw yn yr ail adeilad – yr adeilad israddol - tŷ agweddi (dower) oedd o. Pe byddai'n wag am gyfnod fe'i defnyddid fel cegin neu bopty. Weithiau byddai hen Dŷ Neuadd yn cael ei addasu yn ddiweddarach drwy ychwanegu lle tân a simnai ar un pen, ar gynllun Tŷ Eryri. Yn draddodiadol adeiledid cegin neu bopty ar wahan er mwyn diogelwch rhag tân.

Daeth cyfoeth i'r ardal yn y 16gan. drwy lwyddiant yr uchelwyr a'r ffermwyr yn magu gwartheg ar yr ucheldir a'u gyrru i'w gwerthu i Loegr a bu bri ar adeiladu tai yn yr ardal - sef Tai Eryri. Erbyn y 18gan. fodd bynnag yr oedd y tai a'r ffermydd bychain wedi eu llyncu gan y stadau mawrion.

**<u>Y Tŷ</u>**

**<u>Yr Hen Gegin</u>**

Gwelir holl nodweddion Tŷ Eryri yn Rhos. Egyr y prif ddrws yn uniongyrchol i'r Gegin ar hyd tramwyfa groes a cheir gweddillion panel-postyn-a-phared derw ar y dde (gw. y darn ar "Siambar"). Gyferbyn, ar y talcen, mae simnai fawr, gain iawn, wedi ei hadeiladu i mewn i'r graig. Cyn yr adfer roedd wal o frics wedi eu duo o flaen yr adwy, ac ar yr ochr dde yr oedd popty yn y wal ag iddo ddrws â dwrn pres; roedd lle tân bychan yn ymestyn allan i'r ystafell ac uwch ei ben roedd twll lle gellid gweld y mwg yn codi. Roedd pentan ar yr ochr arall ac roedd olion tamp drwg iawn uwchlaw iddo. Ers talwm roedd ffender a set o heyrn tân dur neu biwtar ar yr aelwyd. Penderfynwyd dymchwel y wal frics er mwyn trio cywiro'r tamp a rhoi stôf olew i gynhesu'r t – yn lle y tân agored. (Roedd drws y popty wedi ei ddwyn.) Y tu ôl i'r wal gwelwyd bod yno bopty arall, cynharach, heb ddrws iddo, a bod y wal y tu ôl, sef talcen y tŷ, yn codi'n uniongyrchol o'r graig. Roedd adeiladwaith y simnai ei hun yn wych – yn well nag unrhyw beth sydd yn Sain Ffagan, yn ôl y pensaer. Yn anffodus roedd yn rhaid rhoi clawr i'w guddio er mwyn rhwystro'r gwres rhag dianc. Hefyd rhoddwyd distyn mawr dur o'r golwg y tu cefn er mwyn cynnal y strwythur gan bod crac yn y trawst mawr a oedd efallai yno ers yn fuan wedi adeiladu'r tŷ.

Diwedd yr 18gan. oedd y cyfnod pan ymgorfforwyd poptai brics a byddai'n ddiddorol cael dyddio'r popty. Byddai'r cerrig yn y simnai fawr i gyd wedi eu plastro, fel y mae'r darn o weddillion simnai fawr sydd yn yr hen fwthyn yn y tŷ boiler. Roedd ffosydd bychain o dan y fflagiau llechi ar y llawr i fynd ag unrhyw ddŵr allan o'r tŷ. Pan dynnwyd y plastar yn 1996 gwelwyd olion ffenest fwliwm fawr lle mae'r ffenest heddiw. Ar y wal gyferbyn â'r prif ddrws mae drws llydan sy'n arwain i'r Bwtri gyda chapan carrreg sylweddol uwch ei ben ac mae'n debyg mai hwn oedd yr hen ddrws cefn.

Pan dynnwyd yr haenau o bitsh trwchus, du oddi ar y trawstiau gwelwyd nad derw oedd y cyfan ohonynt. Roedd trawstiau o goed meddal mewn rhai mannau a sylweddolwyd bod hyn yn arwydd o'r newidiadau a fu i'r tŷ. Bu cryn ddyfalu ymhlith y teulu dros y blynyddoedd pam y naddwyd un o'r trawstiau mawr (uwchlaw'r dresel) ond sylweddolwyd yn ddiweddar mai'r diben oedd gwneud lle i'r ysgol a oedd yn arwain i'r llofft. Rhoddwyd trawstiau o goed meddal i gywiro'r bwlch lle y bu'r ysgol pan grewyd grisiau newydd yn 1861. (Nodwedd ddiweddarach yw grisiau cerrig ger y lle tân mewn Tŷ Eryri – yr ysgol oedd gyntaf.) Mae'r trawstiau ger y drws ffrynt hefyd o goed meddal o gyfnod gosod y grisiau newydd yn 1861 mae'n debyg. (Gwelwyd bod rhywun – wedi nodi 1861 ar y palis.

Yn ddiweddar, yn 2016, dechreuodd haneswyr gwerin gymryd diddordeb mewn marciau ar drawstiau (ac sydd weithiau ar ddodrefn hefyd). Gall y marciau hyn fod yn rhigolau ysgafn mewn rhes, yn rhai wedi eu naddu yn ddwfn neu yn llosgiadau.

Mae gwyddonwyr wedi arbrofi drwy losgi darnau o goed derw mewn labordy gan dddefnyddio canhwyllau gwêr a brwyn a hyd yn oed cannwyll a arbedwyd o weddillion y Mary Rose a suddwyd yn 1545 a gwelwyd bod y marciau llosg oll wedi eu gwneud yn fwriadol ac na ellid fod wedi eu gwneud yn ddamweiniol. Mae nifer o farciau ar y trawstiau yn Rhos ac un llosg mawr o dan y swmer (bressumer). Mae'n edrych fel pe bai rhywun wedi dal lamp neu gannwyll yn ddamweiniol oddi tano. Nid oes sicrwydd beth oedd diben y nodweddion hyn ond mae'n debyg mai rhyw fath o amddiffynfa oeddynt rhag y Diafol a gwrachod ac iddynt gael eu gwneud mewn cyfnod o ansicrwydd crefyddol yn y 1 5 neu 16gan. Er i filoedd o wragedd gael eu dienyddio rhwng 1560 a 1580 yn Yr Alban a Lloegr dim ond 32 achos o fu yng Nghymru. Tybir bod y marciau hyn wedi eu creu er mwyn rhwystro gwrachod rhag dod i lawr y simnai ac i'r tŷ. Gellid cau'r drysau a'r ffenestri ond nid oedd modd rhoi clawr ar y simnai.



Fel yr awgrymwyd, mae'n bosibl nad agorwyd yr adwy gul sy'n arwain i fyny'r pedair gris i'r Rwm Ffrynt hyd yr ailadeiladu mawr ddiwedd y 19gan. Darn o gledr rheilffordd a ddefnyddiwyd fel capan i'r adwy hon. (Yn 1867 y daeth Rheilffordd y Cambria i Minffordd ond roedd Rheilffordd Ffestiniog wedi agor yn 1836.) Wrth inni adfer y tŷ rhoddwyd trawst modern, dur yn lle'r cledr uwchlaw'r grisiau a chodwyd nenfwd yr adwy gryn dipyn ond mae'n dal yn isel iawn i wŷr tal. Os cymherir yr adwy i'r Rwm Ffrynt âr un i'r Bwtri gwelir bod yr adwy i'r Bwtri yn llawer lletach a mwy hynafol yr olwg.

**<u>Dodrefn y Gegin</u>**

Rydym yn ffodus fod o leiaf ddau hen ddodrefnyn gwreiddiol yn dal yma yn Rhos (er iddynt gael ei hail-gartrefu tra oedd Rhos yn wag.) Yn ôl Richard Bebb, yr arbenigwr ar ddodrefn Cymreig, gallasai'r ddau ddodrefnyn isod fod wedi cael eu gwneud gan saer llongau o goed lleol neu hyd yn oed gan aelod o'r teulu. Dyma'r cyfnod pan oedd adeiladu llongau yn ei fri yn Rhos. Roedd dreseli o safon uchel ar batrwm tebyg i'r dresel fach yn cael eu cynhyrchu yn Nyffryn Conwy yn y 17g ac 18g ond yn sicr gwnaethpwyd hon yn lleol gan fod cludo dodrefnyn trwm yn anodd iawn.

Mae traddodiad yn y teulu mai i Rhos y daethpwyd â'r Hwntw Mawr wedi iddo gael ei ddal yn dilyn llofruddiaeth morwyn fach Penrhyn Isaf yn 1812 ac iddo eistedd ar y setl i yfed ei beint olaf cyn cael ei gludo i'r carchar yn Nolgellau ac yn y man, ei grogi yno. Mae'n bosibl bod hynny yn wir oherwydd y dafarn oedd yr unig le ymgynnull yn yr ardal bryd hynny.

**TY Dresel**



Dodrefnyn arall sydd o ddiddordeb yw'r dresel fechan â'r dyddiad 1768 arni ac oddi tano R 21. (Mae'n debyg mai un o feibion Nansi Roberts yn y 19gan. a dorrodd y llythrennau AR islaw.) Ni lwyddais i gysylltu unrhyw ddigwyddiad teuluol, fel priodas, â'r dyddiad 1768. Mae'n bosibl iddi ddod o gartref arall. Dresel Modryb Gwen oedd hi ac etifeddodd Mam hi oherwydd iddi gael ei henwi yn Gwen Mai ar ôl modryb ei mam. Yn yr hen fwthyn yr oedd Gwen Ifans yn byw ac yno y safai'r ddresel. Mae sôn i deulu David Williams, Castell Deudraeth, y landlord, fynd â llestri te a dodrefn oddi yma gan gynnwys cwpwrdd deuddarn bychan. Nid oedd lle ar ydrol i'r dresel fach a chafodd aros yn Rhos.
(Roedd yn rhaid plesio'r landlord!) Mae dresel arall sy'n fwy gan Glyn. Honno o dderw golau.

Cafodd Nain wared ar silffoedd honno er mwyn ei haddasu yn sideboard yn ôl ffasiwn yr oes!

**Y Siambar**

Gair wedi ei fenthyg o'r Saesneg chamber yw siambar, yn golygu ystafell wely.

Roedd gwely mewn ystafell i lawr grisiau yn beth eithaf cyffredin yn y gorffennol.

Mae coed o dair gwahanol fynhonnell ymhlith y trawstiau yma. Roedd yn gyffredin i ailddefnyddio hen goed. Y nenfforch, y trawstiau gwreiddiol a derw newydd o Brenteg a ddefnyddiwyd i drwsio trawstiau pydredig.

Mewn Tŷ Eryri, fel arfer, rhennid y lle yr ochr arall i'r dramwyfa rhwng y ddau ddrws yn ddwy ystafell fechan oer i storio bwyd, a bwtri fyddai un ohonynt ac yno safai cist fawr dderw i gadw ceirch. History of Merioneth 11, tud 429. Dro arall byddai yn barlwr di-dân i groesawu ymwelwyr. Yn Rhos gelwid yr ystafell hon yn Siambar ac mae gweddillion nenfforch ynddi a lle tân bychan o'r 19 gan. Mae dwy rigol o tua llathen o hyd i'w gweld yn y trawst mawr derw uwchlaw'r drws lle yr arferai paneli o goed derw ffitio i greu'r palis gwreiddiol. Mae'n bosibl mai un ystafell - parlwr neu ystafell wely - oedd Siambar gan fod lle rhwng y ddwy rigol i osod drws (cyn gosod y grisiau presennol) ac nid oes arwydd bod yr ystafell wedi ei rhannu yn ddwy. Lluniwyd y palis o goed pîn coch anferth o Ganada (Redwood) – sef corff llong hwyliau. (Roedd gan yr arbenigwyr oedd yn gwneud y gwaith dendrocronoleg lawer fwy o ddiddordeb yn y palis nag yn yr hen ddistiau derw!) Roedd Porthmadog erbyn hynny wedi datblygu yn borthladd pwysig ac yn masnachu yn rheolaidd Â Newfoundland. Roedd pobl yn gwneud iws o ddefnyddiau oedd ar gael, fel yn achos y darn rheilffordd a ddefnydiwyd fel capan uwchlaw'r grisiau i'r "Rŵm Ffrynt". Ar ddarn uchaf y palis roedd bocsus orenau o dan y papur wal ac olion paent lliwgar melyn a glaswyrdd. Yn y 19gan. a'r 20gan. yn y Siambar yr oedd hen wragedd y teulu yn byw – Gwen Ifans ar ôl dymchwel y bwthyn ac yma y trigai fy Nain yn ei henaint ond cysgai yn yr ystafell fach uwchlaw'r gegin. Byddai yn mynd ar ei gliniau i ddweud ei phader, ar y llawr oer, cyn mynd i'w gwely.



**Y Bwtri**

Y tu ôl i'r Hen Gegin mae cegin fach a elwir yn Bwtri. Mae'n anodd dweud pa bryd y codwyd yr estyniad yma. Wrth ei ail-doi gwelwyd mai pegiau derw oedd yn dal yr hen lechi yn eu lle ac roedd y "trawst" a gynhaliai'r to yn gangen o goeden wedi ei gwyngalchu. Ymddengys bod grisiau cerrig allanol ar y safle cyn adeiladu'r Bwtri a'u bod yn arwain i'r llofft uwchben y Siambar gan fod capan carreg y drws i'r llofft i'w weld yn glir o'r tu allan. Efallai ei bod yn fwy hwylus i ddefnyddio'r grisiau

History of Merioneth 11, page 429.

solet y tu allan i gludo tanwydd i'r llofft na'r ysgol yn y Gegin. Gallai ymwelwyr fynd a dwad yn annibynol. (Ond gweler yr adran ar Llofft ben siambar.) Roedd llawer o ôl ailadeiladu i'w weld o dan y plastar yn y Bwtri ac ôl adwy lydan ar y wal gyferbyn â'r ffenest. Yn 1996 agorwyd y ffenest fechan yr oedd Nain wedi ei chau rhag i ymwelwyr sbecian wrth fynd i'r drws ffrynt newydd yn y Rŵm Ffrynt. (Gweler ddamcaniaeth arall dan "Y Llofft"). Addaswyd y silffoedd llechi a arferai ddal y llaeth a'r menyn i fod yn silff fuddiol uwchlaw'r cypyrddau.

**Y Pantri**

Mae'r ystafell fechan yma hefyd yn dipyn o ddirgelwch. Lle i gadw bwyd yn oer ydoedd yn fy mhlentyndod i ac roedd bachyn mawr yn y nenfwd i grogi astell o fochyn. Mae'n debyg yr arferid paratoi bwyd i'r moch yn y grât fechan - a gellid berwi dŵr i olchi. Roedd ynddi ffenest fechan ddi-wydr yn edrych allan dros y Traeth Mawr. Dywed Fanny Edwards, oedd â chysylltiadau teuluol â Rhos: "Ar adegau gwelid ymhlith y trafnidwyr a fynychai'r gwesty, nifer o wŷr llys y Frenhines Elisabeth, ar eu taith i Wydir neu yn ôl; a thrwy ffenestr mewn rhan o'r tŷ sydd erbyn hyn yn adfail y gwylient y llanw...." . Tybed at ble y cyfeiriai? Y Pantri yw'r unig ystafell sy'n edrych dros lanfa'r cychod lle y cafwyd hyd i'r arian o Oes Elisabeth a'r offeryn i roi cwch yn sownd mewn tywod. Roedd capan carreg llydan yn y mur a phenderfynwyd creu drws cefn yno yn lle'r ffenest fechan. Mae'r trawstiau (o dan y plasterboard) yn hen ac yn dreuliedig sy'n awgrymu efallai mai gweddillion yr hen fwthyn ydynt.
(1951)197.
*

**Y Rŵm Ffrynt**

Fe'i codwyd tua 1894 ar safle yr hen fwthyn ac roedd trawst mawr hwnnw i'w weld o dan y plastar. Gellir ei weld yn gyflawn yn y tŷ boiler. Roedd y grat wreiddiol o oes Victoria wedi ei dwyn.

**Y Llofft**

Roedd y llawr uchaf yn hollol agored heb ei rannu yn ystafelloedd ond erbyn y 19gan. cysgai'r gwesteion mewn gwelyau wenscot clyd a phreifat. Nain a osododd y palis i greu'r ystafelloedd gwely. Erys rhes o styffylau haearn solet yn un o'r trawstiau er mwyn i'r teithwyr grogi dillad ac eiddo arnynt. Yn unol â phatrwm traddodiadol Tŷ Eryri roedd lle tân sylweddol yn llofft Ben Siambar. Yn ôl arbenigwyr, roedd hon yn gyfrin i feistres y tŷ ac ni ellid mynd iddi ond drwy ystafell arall – neu risiau allanol efallai? Y ferch, pan briodai, oedd yn gyfrifol am ddodrefnu'r ystafell hon a darparu'r dillad gwely. Fe'i defnyddid yn y dydd yn ogystal ag yn y nos i gysgu ynddi. (Darganfod Tai Hanesyddol Eryri , Sugget t.47). Mae tyllau bychain crwn mewn mwy nag un trawst yn y llofft, dyma lle y gosodid prennau i gynnal y gwiail a oedd yn fur i hen dai. Ond gan nad oed rhai tebyg ar y llawr isaf, mae'n debyg mai coed wedi eu hail ddefnyddion ydyn nhw, o bosibl o'r un lle.

Wedi i Nain brynu Rhos yn 1922 codwyd y to a helaethwyd y ffenestri.

**Y Bwthyn**

Y tu ôl i'r Gegin safai bwthyn croglofft. Heddiw y "Rwm Ffrynt" sydd ar y safle a dwy lofft uwchben. Mae'r swmer (bressemer) a gweddillion y simnai fawr sylweddol wedi goroesi a diddorol sylwi bod y simnai fawr wedi ei phlastro a'i gwyngalchu ond dymchwelwyd y corn simnai o fewn cof oherwydd ei fod yn beryglus. Yn rhestr eiddo Dafydd Ifan (1778) ac ewyllys ei wraig Ann Llwyd (1779) y ceir yr unig ddisgrifiad o gynllun y tŷ/tai. Nodir "ye uper chamber, ye lower chamber, all ye midi flower ac ye loft." Nid oes disgrifiad o gynnwys yr ystafelloedd yn anffodus, dim ond gwerth eu cynnwys. Mae'n bosibl mai bwthyn unllawr oedd y midi flower (middle floor) a'r "loft" yn daflod. Yr oedd yr eiddo yn y "lower chamber " a'r "lofft" dipyn yn fwy gwerthfawr na'r gweddill.

Ysgrif ar Benrhyndeudraeth yng Nghylchgrawn...CHaChM 1.3
*
An aryicle on Penrhyndeudraeth in the Journal of the Merioneth Historical and Record Society 1.3 (1951) 197.
Discovering the Historic Houses of Snowdonia, Sugget & Dunn, p.47.

**Y Bragdy**

Gyferbyn â'r tŷ safai Bragdy ond fe'i dymchwelwyd gan y chwarel yn y 1960au. Bwthyn croglofft oedd hwnnw hefyd gyda grisiau carreg y tu allan i'r daflod, clamp o simnai fawr a thaflod uwchben lle safai'r gwartheg. Roedd lle i bedair buwch. Yn ôl traddodiad lleol bragdy i Blas Newydd ydoedd ac mae llwybr cofrestredig yn cysylltu Plas Newydd a Rhos ac oherwydd hynny bu'n rhaid i gynllunwyr Rheilffordd Cambria godi pont drosto pan adeiladwyd y rheilffordd yn 1866. Mae nifer o haneswyr lleol yn sôn am garreg ar fur y Bragdy ac arni ddyddiad a'r geiriau Brewery y Rhos, ond cafodd ei dwyn ac nid oes neb yn cofio'r dyddiad oedd arni. Mae Bob Owen yn nodi bod Cadwaladr Owen yn fragwr ym Mhlas Newydd o gylch 1774, a dibynnai hwnnw ar y diwydiant yn gyfabgwbl. *

Bob Owen, Diwydiannau Coll tud 109.

Oes fer oedd i'r cwrw bach a byddai'n rhaid ei baratoi yn rheolaidd Dywedir bod angen bragu 2-20 galwyn yr wythnos i deulu – heb sôn am yr ymwelwyr. Roedd Plas Newydd yn uned 1 ddiwydiannol fawr yn y 18gan. gyda phoblogaeth sylweddol i'w disychedu. Gan fod dŵr cyn cyfnod carthffosiaeth yn afiach cwrw bach oedd diod gyffredin y werin ac yfai'r bobl tua wyth peint, yr un, y dydd. O haidd nau farlys yr oedd y cwrw yn cael ei wneud ac yn ddiweddarach mabwysiadwyd yr arfer o ychwanegu hopys at y cwrw. Roedd bragu yn broses hir a llafurus a'r merched oedd yn bragu fel arfer. Cedwid y cwrw mewn casgenni (butts) yn y buttery. Llosgid eithin a rhedyn i wneud y tân I fragu gan eu bod yn rhoi gwres uchel yn sydyn.

Yn 1552 pasiwyd deddf Act for Keepers of Alehouses i sicrhau bod "tafarnwyr" yn codi trwydded, ond nid oes cofnod wedi goroesi i Rhos a phrin yw'r wybodaeth sydd ar gael amdanynt.

Ar yr un llecyn, gyferbyn â'r tŷ, safai tŷ gwair; dymchwelwyd hwnnw hefyd gan y chwarel yn 1998 a defnyddiwyd y cerrig i adfer y wal isel o amgylch y tŷ a'r ardd. Mae tomen o gerrig ar y llecyn lle o bosibl y safai'r stabal, oedd yn hanfodol i'r busnes.

Gyferbyn, wrth ochr y tŷ, saif y cwt mochyn, yn hwylus er mwyn bwydo'r brag i'r moch.

Bob Owen, Diwydiannau Coll p.109.

Mae cafn bwyd y moch, wedi ei naddu o lechen yn yr ardd o dan yr hen goeden afal ond yn anffodus yr oedd wedi torri yn ddwy pan gafwyd hyd iddo.

Roedd llawer iawn o gregyn yn y pridd yn y cefn a chred archaeolegwyr diweddar sy'n ymchwilio i hen hanes Traeth Mawr bod y safleoedd creginog yma (shell midden) yn dyddio o ddiwedd Oes y Pres ond tybiaf i mai gweddillion bwydo'r ymwelwyr ydynt.

Mae hopys yn dal i ddringo i fyny'r hen goed eirin yng ngwaelod y berllan.

**Gwin**

Roedd gwin, mewn casgenni fel arfer, yn rhan o lwyth cymysg llong oedd yn cynnwys glo, halen a choed. Yn 1663 caniatawyd i dafarnau werthu gwin a gelwid y llefydd oedd yn gwerthu cwrw yn unig yn alehouses ; roedd inn yn darparu bwyd, diod a llety.

" wines were being unloaded at Chester then into private creeks at night....other wines were then being re-routed to creeks and ports on the North Wales coast to avoid taxes."

Neil Fairlamb, The Wine Trade c.1600-c,1900.

Mae'n ddirgelwch ymhle y cedwid y gwin i'r gwindy yn Rhos gan nad oes golwg o seler nag ogof gerllaw. Weithiau defnyddid twll yn y llawr i gadw gwin yn ddiogel.

By the mid 14 century, even the sparsely populated Cambrian coast could boast of inns that stocked foreign wines, Dafydd ap Gwilym (fl1340-70) tells us that he frequented a public tavern where he was able to buy expensive vintages.

Other poets praised the wine too:

Hafnau lle daw llongau'n llawn
A dwyn gwin da iawn ei gael
I'th drefi berffaith drafael.

Ken Lloyd Gruffudd, Maritime Wales in the Middle Ages: 1039 – 1542, Bridge Books (2016) 191-192, 196.

**Canlyniad Dendrocronoleg:**

"A Snowdonia house of 1572 but probably of earlier origin: a fragment of undatable cruck-blade is visible in the outer room. " (Vernacular Architecture, Vol 28, 2007, List 193, Welsh Dendrochronology Project – phase II, p 137.)

The "trefi" referred to were most likely Aberdaron, the boroughs of Cricieth and Nefyn and the Glaslyn estuary for the Priory of Beddgelert. Ieuan Dew of Arwystli (1540-1610) makes a similar observation. Earlier Rhys Goch Eryri (fl.1384-1448) had observed with satisfaction the advent of a wine ship destined for one of these north-western anchorages."

## Pennod 2

Rhestrir isod y dogfennau swyddogol sy'n gysylltiedig â Rhos yn y 15 a'r 16 gan.; adroddiad Syr John Wynn o Wydir a chefndir hanesyddol y cyfnod.

**Y Cefndir Hanesyddol Cynnar**

Yn fras dyma'r dyddiadau sy'n hysbys am gyfnod cynnar Rhos.

**1462** "...Ty'n y rhos being a wine house standing in Penrhyndeudraeth."
John Gwynfor Jones (ed), The History of the Gwydir Family and Memoirs by Sir John Wynn (Gomer1990) tud 39.

**1519** Dogfen Gyfreithiol Porth yr Aur : Ieuan ap Einion ap Rees ap Madog Clwch o Lanfrothen yn trosglwyddo Ty'n y rhos i Richard Pencoyd clericus a Lewis ap Ieuan ap Dio. (Roedd y tystion i'r weithred oll o deulu Gwydir.) Archifdy Prifysgol Bangor 3695.

**1565.** William ap Robert ap Ieuan ap Einion yn ddirprwy'r Goron y Traeth Mawr. EA Lewis, Havens and Creeks, Welsh Port Books. 1550-1603. (1927) tud. 310.

**1572** Dyddiad adeiladu Rhos "newydd" (gw.Adroddiad dendrocronoleg 2012).

**1623** Rhenti'r Goron yn Ardudwy - Robert William y perchennog yn talu 1c. Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Meirionnydd, 2009 tud 376. Mae enw Morris ap Eliza o deulu Clenennau yn agos at enw Rhos yn y rhestr (his own land 1/8), gw. CA Gresham, Eifionydd t. 102-104, History of Merioneth t.665.

**1662** Treth Aelwyd. Nodir bod gan rhyw William ap Robert eiddo gydag un aelwyd yn Penrhyn. Ni enwir y tŷ ac roedd dwy aelwyd yn Rhos ond mae'r rhestr yn fylchog ac efallai nad oedd ap Robert yn cydnabod un o'r aelwydydd er mwyn lleihau'r dreth. CCHM 1953, tud 27.

**1680** Dechrau cofnodion teuluol. T Ceiri Griffiths, Achau, (Y Lolfa 2012) tud.274. Nid oedd y teulu yn berchnogion ar yr eiddo ond mae'n bosibl eu bod yn Rhos ers cenedlaethau gan fod y denantiaeth yn cael ei throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall.

Gweler hefyd yr ymchwil ar William ap Robert.[1]

Ar gais Elisabeth 1 paratowyd adroddiad swyddogol i'w llywodraeth yn 1565: "Y Traeth Mawr being a haven, havinge no habitacion nor resorte. And there is likewise neither Shippe Vessel or Boote that belongeth to the same" (Calendar of State Papers Domestic.)
Yn ddiweddar tr[2]wy weithgarwch Cymdeithas Darganfod Hen Dai Cymreig a'i defnydd o dendrocronoleg profwyd bod nifer fawr o dai sylweddol wedi eu hadeiladu yn yr ardal yn y 15 a'r 16 gan. Mae'n anodd credu felly nad oedd "habitacion" ar fin y Traeth na "shippe" oherwydd credir bod masnachu yn digwydd o gyfnod cynnar iawn. Gweler hefyd yr ymchwil ar William ap Robert.

---

Ceir manylion pellach yn *House History Research, Dendrochronology Report, Dating Old Welsh Houses* (2012).

KL: Ymddengys bod hyn yn cyfeirio at atodiad ar William ap Robert sydd ar goll.

**Teulu Gwydir**

Y cofnod cynharaf sy'n crybwyll Rhos yw un Syr John Wynn o Wydir yn ei froliant i'w deulu The History of the Gwydir Family, a ysgrifennwyd rywbryd ar ôl 1580.

Mae'r awdur yn canolbwyntio ar y cyfnod cythryblus yn dilyn Rhyfeloedd Owain Glyn Dŵr yn y bymthegfed ganrif a'r mân dirfeddianwyr rheibus oedd yn ymladd â'i gilydd am diroedd a chyfoeth, pan oedd yr holl wlad rhwng Conwy a Dyfi yn ei eiriau ef yn "wasted with fire and sword" .

Dyma fel y mae Dan Jones yn disgrifio'r cyfnod yn ei lyfr gwych ar Ryfel y Rhosynnau. "The middle to the late decades of the 15c. experienced sporadic periods of extreme violence, disorder, warfare and bloodshed, an unprecedented number of murders, betrayals, plots .... a dangerous and uncertain period of brutality, cruelty and violence.".

Dan Jones The Hollow Crown, Faber and Faber, 2014.

Bryd hynny, yng Nghymru, roedd yn arferiad gan foneddigion roi eu plant allan ar faeth i gwblhau eu haddysg. Roedd rheithor Llanfrothen yn dadmaeth i blentyn Ieuan ap Robert, un o gyndeidiau cynhennus a phwerus Syr John. Yn 1461 cododd anghydfod rhwng Ieuan ap Robert a Hywel ap Rhys, a chynllwyniodd Mared, gwraig Hywel, i ddial ar Ieuan trwy lofruddio'r rheithor. Trefnodd i ferch ifanc guro ar ddrws ei gartref ac erfyn am loches. Cafodd groeso gan y rheithor ac aeth pawb I noswylio. Ganol nos dechreuodd y ferch sgrechian a honni fod y rheithor wedi ei threisio a rhuthrodd allan o'r tŷ. Roedd hyn yn esgus i dri o'i brodyr, oedd yn cuddio gerllaw, i ddial a lladdwyd y rheithor wrth Ogo'r Llychwin. Ffodd y tri brawd tua'r dwyrain i chwilio am seintwar a Ieuan ap Robert yn eu herlid.

"

As Ieuan ap Robert was on his way going thither passing by **Tŷ-yn-Rhos**,"(being a winehouse standing in Penrhyndeudraeth) Hywel ap Rhys's wife, being in the house, said to the people that were with her: "Yonder goes Ieuan ap Robert: "Hwyr y dial fo ar i dadmaeth", which is as much as to say..." that he would not be in haste to be revenged of the wrong done to his foster."

Mae stori arall am lofruddio rheithor Llanfrothen ar lafar gwlad. Roedd criw o ddynion wedi dod o Lŷn i Lanfrothen i chwilio am wragedd. Yn naturiol roedd gwŷr Llanfrothen yn ddig ac aeth yn ffrae wyllt rhyngddynt ger fferm a elwir hyd heddiw yn Maes Gwŷr Llŷn. Lladdwyd y rheithor ac aeth yn frwydr waedlyd ac erlidiwyd yr ymwelwyr i gyfeiriad Y Traeth Mawr. Rhwystrodd y llanw nhw rhag croesi ac fe'u goddiweddwyd a'u lladd ger Ty'n y Rhos a'u claddu ym Mhen yr Orsedd, yng nghae Bryn Gwyn, gerllaw.

Yn ei lyfr mae Syr John Wynn yn egluro ei bod yn arferiad gan bob uchelwr o safon gadw gwindy. Mae Tudur Aled, Gutun Owain a'u cyfoeswyr yn eu cywyddau yn enwi gwinoedd Rhôn, Gwasgwyn a Bwrgwyn. Roedd gwin yn cael ei fewnforio o Ffrainc bedair gwaith y flwyddyn. Er mwyn i'r fenter fod yn ymarferol roedd yn rhaid mewnforio llond llong ar y tro a chan fod y gwin yn cael ei gludo mewn costreli o groen anifail byddai'n suro yn gyflym (yn ddiweddarach fe'i cludid mewn casgeni.). Felly gwerthid yr hyn oedd yn weddill i anghenion y plas mewn gwindy.

Aiff Syr Wynn ymlaen i ddisgrifio beth yn union oedd gwindy: " The fashion was in those days that the gentlemen and their retinues met commonly every day to shoot matches and to try masteries. There was no gentleman of worth in the country but had a wine-cellar of his own where wine was sold to his profit. Thither came his friends to meet him and there spent the day in shooting, wrestling, throwing the sledge and other acts of activity and drinking very moderately withal, naccording to the healthing and gluttonous manner of our days."

*

John Gwynfor Jones (ed. The History of the Gwydir Family and Memoirs (HGF) by Sir John Wynn, (Gomer, 1990) 36, 39.

Yr oedd cryn gyfeddach yn y gwindy pan ddeuai uchelwyr ieuainc ynghyd i gystadlu ac ymarfer campau fel ymladd â chleddyfau, bwrw codwm, saethu efo bwa saeth a hyd yn oed creu barddoniaeth -hynny yw y Pedair-Camp-ar-Hugain. Yn ôl un awdur cyfoes "a source of wealth and disorder" oedd y gwindai.

Ceir ychydig o wybodaeth am dafarnau'r 14 -15gan yng nghywydd enwog Dafydd ap Gwilym

Dan Jones, The Hollow Crown, Faber and Faber, 2014

John Gwynfor Jones, ed., The History of the Gwydir Family and Memoirs by Sir John Wynn, (Gomer, 1990) 36, 39.

KL: Rhestrir y "Twenty-four Feats" gan John Davies, Mallwyd yn ei Dictionarium Duplex,1632.

KL: Dyfyniad yn Lundy Braun, Breathing Race into the Machine: the Surprising Career of the Spirometer, 2014.

Trafferth mewn Tafarn" lle mae'n disgrifio un o dafarnau budr, bler y cyfnod ac mae'n "prynu rhost " a gwin drud" cyn mynd i gysgu gyda'i gyd deithwyr – tri Sais yn eu plith – mewn un ystafell. Nid yw Dafydd ei hun yn defnyddio'r gair "tafarn" ond "llety". Y dosbarth isaf o feirdd, Y Glêr, fyddai'n diddanu'r lletywyr gyda phastwn, crwth neu delyn yn gyfeiliant ond mae'n bosibl bod Dafydd ap Gwilym hefyd wedi diddanu pobl mewn tafarn.

Cyfeirir at Rhos mewn dogfennau swyddogol, amrywiol a ddyddiwyd rhwng 1519 – 1790 a manylir ar un islaw. Gwnaethpwyd archwiliad dendrocronolegol ar y tŷ yn ddiweddar, a dyddiwyd y trawstiau i 1572.

Er gwaethaf adroddiad llys Elisabeth 1 mae peth tystiolaeth yng ngwaith y beirdd bod masnach win Traeth Mawr yn bwysig iawn yn yr Oesoedd Canol. Deuai llongau o Lydaw i'r ardal yn cludo gwin o Gwasgwyn ac yn ddiweddarach o Sbaen a Phortiwgal. Weithiau byddai gan ŵr bonheddig drefniant gyda masnachwr gwin neu feistr llong i fewnforio llwyth o win ar ei ffordd i borthla mawr megis Caer. Byddai yntau yn gwerthu yr hyn oedd dros ben i anghenion y plasty i'r gwindy. Roedd Priordy Beddgelert yn gwsmer da i Ty'n-y-rhos ac mae'r beirdd Morus Dwyfach a Ieuan Tew

Brydydd Hen yn sôn am fewnforio gwin yn yr ardal.

**Dogfen Porth yr Aur, 12 Mai 1519**

Yn Archifdy Prifysgol Bangor mae dogfen gyfreithiol yn trosglwyddo Ty-yn-y-rhos, ynghyd â nifer o anedd-dai eraill cyfagos, i Richard Pencoyd a Lewis ap Ieuan yn 1519.

"Release by Ieuan ap Einion ap Rees ap Madock Llwch (o deulu Clough yn ddiweddarach) of Llanfrothen to Richard Pencoyd clericus and Lewis ap Ieuan ap Dio of Hendre Hoedlew, Tyddyn y Ficer, Henbant, Ty yn y Garth, **Ty yn y rhos**, Cae Merched Ieuan Fychan, Tai Newydd, some vigrates in Gelli Dywyll and Dol Llywelyn Goch (some being in Llanfihangel-y- traethau (Lltr.))"

Ychwanega'r ddogfen:

A cleric of the name Richard Pencoyd was presented to a portion of the benefice of Aberdaron.

A portion of the above lands were once owned by Thomas ap Griffith ap David ap Llywelyn.

Porth-yr-aur, 3694, Prifysgol Bangor.

Roedd y gwerthwr, Ieuan ap Einion, yn ŵr pwysig a phwerus yn yr ardal (Llsg Brogyntyn 1.24 LlGC) a cheir cyfeiriadau ato ef a'i deulu yn yr un llawysgrif.

Ceir cyfeiriad at un o'r prynwyr hefyd, Lewis ap Ieuan ap David (Dio), mewn nifer o ddogfenau: (quitclaim 6 Meh 1587, Z/DV/302 Arch. Dolg.). Mewn dogfennau eraill cyfeirir ato fel gŵr o Lanaber. Z/DV/301,Z/DV/307, 21 Ion 1588, gweler hefyd Z/DV/310 2 Chwef 1603. (Ymhen 20 mlynedd roedd Rhos yn eiddo i Robert William.)

**Richard Pencoyd**

Mae dipyn o ddirgelwch ym y gŵr hwn. Trosglwyddwyd yr holl dai a enwir uchod iddo ef a Lewis ap Ieuan ap Dio. Mae'n ddirgelwch sut y bu i Ficer Aberdaron gronni'r cyfoeth a nodir isod.

Daeth Richard Pencoyd yn ficer Aberdaron ar 14/Medi/1514. Ymddiswyddod yn 1536 neu 1537. Gw. Arthur Ivor Price, The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century 1512-1646. (Tybed a oedd yn reciwsant?) Yn ogystal â Ty'n y rhos derbyniodd stad yn anhreg ar 9 Chwef. 1519, Tan-y-bwlch /D/ 168. ac un arall dridiau yn ddiweddarach Tan-y-bwlch Z/DV/169 a Z/DV/269. Arch. Dolg.

(Roedd yna Rys Pencoyd yn Rheithor Ffestiniog yn 1504, a Thomas Owen de Pencoyt yn ddiacon ym mhlwyfi Ffestiniog a Maentwrog yn 1572.)

Mae nifer o'r tai a enwir yn nogfen 1519 yn dal mewn bodolaeth ac mae'r rhan fwyaf yn weddol agos i Rhos. Hen enw ar fferm gyfagos Tŷ Obry oedd Hendre Hoedliw; mae'n bosibl mai Tŷ Fry oedd Tyddyn y Ficer gan fod personiaid yn byw yno yn y 18gan; mae gweddillion Tŷ yn y Garth yng

Gweler Arthur Ivor Price, The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century 1512-1646.

Melville Richards Database (MR

nghanol Chwarel y Garth a thyddyn ym Mhenrhyndeudraeth yw Cae Merched (Ieuan Fychan). Mae'n bosibl mai Henbant oedd yr hen enw ar Plas Newydd ac mae cae o'r enw Maes Henbant ar dir Tŷ Obry. Rhyw Robert Wynne oedd yn byw yn Gelli Dywyll, Maentwrog yn 1623 ond erbyn 1632 roedd wedi dod i ddwylo Stad Mostyn. Cronfa Ddata Melville Richards (MR)

Roedd y tystion i'r ddogfen oll â chysylltiad â theulu Gwydir:

Maredudd ap Ieuan ap Robert (mab Ieuan ap Robert o hanesyn 1462, a'r gŵr a sefydlodd stad Wynniaid Gwydir. Etifeddodd diroedd yn Clennenau a Phenyfed).

John Wynn ap Maredudd ap Ieuan ap Robert. (Etifeddodd diroedd ei dad uchod yn Llanfrothen ac roedd yn daid i Syr John Wynn. Roedd y rhan fwyaf o'r tiroedd hyn ar les gan y Goron yn dilyn dileu'r mynachlogydd.)

Rees ap Ieuan ap Maredudd
John ap Wynn ap Maredydd
John ap Maredudd ap Matto

John Foxwist (twrna o Sir Caer a ymsefydlodd yng Nghaernarfon)

**Y Cefndir Hanesyddol yng Nghymru**

Gydag esgyniad Harri VII i orsedd Lloegr daeth heddwch i'r gwledydd wedi'r cyfnod o anrhefn yn y 15gan.

Yn dilyn Deddf Uno Cymru a Lloegr yn 1536 bywiogodd yr economi, cynyddodd y boblogaeth a thyfodd y trefi. Bu newid mawr ym mhatrwm perchnogaeth tir yng Nghymru. Yn draddodiadol roedd y tir yn eiddo i nifer o berchnogion y trefi rhyddion ac i'r mynachlogydd. Wedi i Harri V111 ddadgysylltu'r eglwys hawliodd diroedd y mynachlogydd. Fe'u gosodid ar rent (Crown Rental) a daeth rhai teuloedd, megis teulu Gwydir, (gw. Dogfen 1519 uchod) i'r amlwg a chronnwyd y tiroedd i feddiant dyrnaid o deuluoedd pwerus. Parhaodd y stadau mawrion i dyfu nes iddynt edwino yn y 19gan. a'r 20gan. Wrth i'r teuluoedd dyfu mewn grym a statws daeth rhai o'r cyn-berchnogion yn denantiaid iddynt. Codwyd y rhenti, dechreuwyd archwilio'r posiblrwydd o ennill rhagor o dir drwy gau" y tiroedd comin – a thrwy sychu rhannau o'r Traeth Mawr. Ond ar y cyfan roedd hwn yn gyfnod "o heddwch ac o gronni cyfoeth wedi canrifoedd o helbulon megis Gwrthryfel Owain Glyn Dŵr, dinistr y Pla Du ac ymrafael Rhyfel y Rhosynnau. Mae'n syndod cymaint o dai a godwyd ym Meirionnydd tua chanol y 1500.

O 1535 ymlaen cafwyd deng mlynedd o dywydd gwlyb iawn, ac o tua 1560 dioddefodd Prydain yr hyn a elwir yn Oes yr Ia Bychan gyda hafau gwlyb a gaeafau eithriadol o oer gan achosi salwch a newyn. Parhaodd hyn tan tua 1650. Er bod y tywydd gwlyb yn drychinebus i ffermwyr yr iseldir nid oedd yn amharu i'r un graddau ar berchnogion y gwartheg duon a borai'r tir uchel, gwael. Roedd marchnad lewyrchus i'w chael yn allforio gwartheg i Loegr a daeth rhai o'r tenantiaid yn gyfoethocach na'r tirfeddianwyr. Nid yw'n syndod felly bod adeiladu mawr wedi digwydd ym Meirionnydd yn y cyfnod hwn a pherchnogion yn cystadlu â'i gilydd. Un o nifer fawr o dai a adeiladwyd yn y 16gan. yn yr ardal yw Rhos. Ac wrth gwrs, nid oedd y tywydd yn amharu ar " gynhaeaf" (pysgod a bwyd môr) y Traeth Mawr.

gw. The History of Merioneth II, Houses 1415 – 1642, Peter Smith.

# Pennod 3

**Perchnogion Rhos**

Yn anffodus, ni lwyddwyd i gael gwybodaeth bendant am y cyfnod rhwng dogfen 1519 a Rhenti'r Goron yn 1623. Nodir ym mhapurau Maes y Neuadd Rhif 244 "quitclaim Robert ap William, free tenant of Llanfrothen " ond mae'n bosibl bod y ddogfen hon yn ymwneud â hen ffermdy Minffordd. Cofnodir bod William ap Robert ap Ieuan ap Einion, sef ŵyr Ieuan ap Einion o ddogfen 1519, yn Ddirprwy'r Goron yn Traeth Mawr yn 1565.
EA Lewis Havens and Creeks, Welsh Port Books, 1550 – 1603. tud 310.

Yr hyn sydd yn sicr yw mai gŵr o'r enw Robert William oedd perchennog Rhos yn 1623 oherwydd fe'i henwir ef yn rhestr Rhenti'r Goron yn Ardudwy y flwyddyn honno. Mae'n talu 1c. 0 rent a Rhos oedd ei unig eiddo. Mae'n bur debyg mai ei fab, William ap Robert, Penrhyndeudraeth oedd yn talu'r Dreth Aelwyd yn 1662 ar dŷ ag iddo un aelwyd, er nad enwir Rhos yn benodol.

(Yn anffodus mae bron i ddau ddwsin o ddynion o'r enw William ap Robert neu Robert ap William yn byw yn yr ardal yn y cyfnod hwn rhwng Penmorfa a Lanfrothen a cheir cofnodion amdanynt, gan gynnwys ewyllysiau. Ni chefais gyfeiriad at Rhos yn yr un ohonynt.) gweler yr Atodiad ar y diwedd.

Gellir bod yn weddol sicr felly mai fel a ganlyn yr oedd yr olyniaeth ar ôl 1519: Ieuan ap Einion ap Rhys ap Madog Llwch, dogfen( 1519); William ap Robert ap Ieuan ap Einion, Dirprwy Traeth Mawr (1565); Robert William, Treth y Goron (1623); William ap Robert, Treth Aelwyd (1662). Nid oes cofnod swyddogol pellach hyd Treth Tir 1798 pan oedd yn eiddo i stad Mostyn. Trwy'r holl hanes yma, ac yn ddiweddarach yn achos y lletywyr Griffith Wynne a John Jones yn yr 18gan., gwelir cysgod teulu Gwydir. (Gweler Rhos, Ymchwil Hanes Tŷ (2012) tud.5 – 6, am fanylion llawn.) Talodd rhyw John Jones, Llanfrothen (rhif 9) 15/6 yn rhestr Deddf Tir Mostyn yn 1768 ond yn anffodus ni restrir enw'r eiddo. (Roedd John Jones, Rhos, bonheddwr wedi marw ers 1755.)

Rwyf wedi chwlio yn ddyfal ond yn ofer drwy bapurau Stad Brogyntyn, Clennenau, Llansteffan, Tan y Bwlch, Mostyn, Bryn-y-gwin a Parc mewn archifdai ac yn y Llyfrgell Genedlaethol. Felly rydw i wedi dod i'r casgliad mai rhan o stad Parc oedd Rhos er nas enwir yn benodol mewn unrhyw ewyllys na chytundeb priodas.

**Plas Newydd**

Tybiaf fod Rhos yn rhan o Blas Newydd ac wedi ei ymgorffi yn nogfennau hanes Plas Newydd. Nid oedd yn ddigon mawr na gwerthfawr i haeddu ei ddogfennau ei hun. Yn ól traddodaid lleol gwindy (yna bragdy) i Blas Newydd oedd Rhos; mae són am dwnel yn cysylltu'r ddau adeilad ac yn bendant roedd llwybr rhwng y ddau le. Mae cyfeiriadau at Blas Newydd yn nogfennau Parc – aelod o'r teulu hwnnw a gododd y plasty yn 1677 sef Robert Anwyl (1654-1695), rhyw ganrif ar ól ailadeiladu Rhos. Y gred yn lleol oedd bod y teulu yn treulio'r gaeafau ym Mhlas Newydd a'r hafau yn y Parc.

Bum yn ymchwilio hanes cysylltiadau Gwydir â Phlwyf Llanfrothen yn y 15gan. a'r 16 gan. yn y Llyfrgell Genedlaethol – enwau tenantiaid ac ati ond nid oedd sôn am Ty'n y Rhos.

Ond yr oedd rhyw fath o gysylltiad rhwng y preswylwr Griffith Wynne a Gwydir ac hefyd roedd Catherine Rowland, gwraig John Jones bonheddwr yn ferch Parc. Mae stori hir a chymhleth i hanes Parc a thrafferthion ariannol y teulu ac yn 1746 bu'n rhaid i'r perchennog, Sir Thomas Pendergast, werthu'r "**town** and lands of Plas Newydd" i Sir Thomas Mostyn. (Z/DJ/201).

Yn ôl tystiolaeth yr hanesydd lleol Ioan Brothen: "prynwyd y Parc yn 1748 gan Williams Wynn, Y Wern, un o Wyniaid Peniarth. Gwerthwyd Y Parc eto i Syr Richard Price Lloyd y cyntaf o arglwyddi Mostyn. Erbyn Treth Tir 1798 Sir Edward Pryce Lloyd oedd perchennog Plas Newydd a Rhos a John Jones llongwr oedd y preswylydd. Rhoddwyd y ddau eiddo ar y farchnad yn 1832. Aeth Parc i ddwylo Hugh Revelrey, Brynygwin. David Williams, Castell Deudraeth a brynodd Rhos a Phlas Newydd yn 1853 a buont yn rhan o stad Castell Deudraeth hyd y Sél fawr yn 1922.

Dywed Ioan Brothen hefyd .."ar gae a elwir Maes yr Henbant, gerllaw y tŷ (sef Plas Newydd) mae olion rhyw hen adeilad lled helaeth lle cafwyd hyd i amryw o bethau henafol". Dyma, mae'n debyg, yr "hen" blas.

EA Lewis Havens and Creeks, Welsh Port Books, 1550 – 1603. p. 310.KL: Yn anffodus mae'r atodiad hwn, os cafodd ei ysgrifennu, bellach ar goll.

# Pennod 4

Hanes prysurdeb y "dafarn" a phwysigrwydd Traeth Mawr at gynhaliaeth Rhos a Pentref.

**Y Ddeunawfed Ganrif**

**Y Gwesty (The Inn)**

Yn yr Oesoedd Canol yr oedd yn gyffredin i ffermydd a bythynnod fragu eu cwrw eu hunain a'i werthu i deithwyr oedd yn mynd heibio. Roedd dŵr yn y cyfnod hwnnw yn afiach a chwrw neu gwrw bach a yfai pawb. Yn ôl yr hanesydd lleol Griffith Williams a ysgrifennai yn 1867yr oedd tafarnau wedi bod yn Cae Ednyfed, Rhos, Bryn Turnor a hen ffermdy Minffordd - gymaint oedd y galw. Ceircofnod yn Llyfr Cyfrifon Stad Brondanw yn 1771: "Payed ye daughter of Rose for 6 Bottles of Brandy and 6 due to for oats 9/6". Archifdy Prifysgol Bangor. Tybed o ble y daeth y brandi a sylwer mai merch oedd yn trafod y busnes.

Rhaid cofio hefyd bod y nifer y teithwyr o Loegr wedi cynyddu yn sylweddol tua diwedd yr 18gan.oherwydd nad oedd modd i wŷr cefnog deithio i gyfandir Ewrop ar y "grand tour"oherwydd rhyfeloedd Napoleon a daeth darganfod Cymru yn boblogaidd. Tua'r un cyfnod dechreuodd y Llywodraeth fynnu bod pob tafarnwr yn cofrestru a phrynu trwydded. Mae'r rhestrau tafarnau yn Ardudwy i'w gweld yng nghofnodion y Sesiynau Chwarter (Z/QS/M, 1791 – 1812). Yn aml ni nodir enw'r dafarn dim ond enw'r tafarnwr. Gwelwyd bod Alehouse Recognizance ar gael ar gyfer Rhosyn12 Medi 1785 a thalodd John Jones a William Jones £10 yr un ac Owen Jones a William Jones (arall?) hefyd £10 yr un. Dywedir mai ymrwymiad (bond) oedd hwn i sicrhau ymddygiad da. Prin iawn yw'r cofnodion sydd wedi goroesi.

Cyfeirir yn lleol at Rhos fel tafarn ond nid tafarn yn yr ystyr arferol oedd yma. Nid oes gair Cymraeg am inn, lle cynigid llety yn ogystal â bwyd a diod i deithwyr. Yn aml os byddai'r tywydd ynstormus neu yn niwlog byddai'n rhaid i bobl aros am ddyddiau lawer cyn gallu croesi'r Traeth.

Dywedir bod John Wesley wedi aros yma droeon, ac mae cyfeiriadau mynych yn ei dddyddiaduron at ei lety ond nid yw yn ei enwi. Mae traddodiad teuluol hefyd bod Howell Harris wedi cynnal cyfarfod gweddi ar yr aelwyd, efallai pan groesodd y Traeth Mawr i fynd i Lŷn yn 1748.

Roedd tafarn yn lle prysur, yn ganolfan gymdeithasol i'r ardal. Byddai pobl yn trafod busnes, ynchwarae gêmau, yn yfed ac yn dathlu priodasau yno ac weithiau yr oedd telynor neu ffidlwr yn diddanu'r bobl. Weithiau cynhelid anterliwt neu, yn ddiweddarach, bregeth yn y buarth y tu allan. Mae'n debyg bod y gweithgareddau hyn yn digwydd yn Rhos hefyd. Tybed a gyflwynodd Twm o'r Nant anterliwt yn y buarth pan oedd yn gweithio ar y Cob yn 1812?

Dirgelwch arall yw pa bryd y caewyd drysau'r "dafarn" yn derfynol. Agorwyd y Cob yn 1812 ac wedyn yr oedd yn fwy diogel i deithwyr groesi 'r ffordd honno a thalu toll na mentro ar draws y Traeth ar geffyl neu ar droed. Mae'r hynafiaethydd a'r cyfreithiwr Edward Breese o Borthmadog yn nodi mewn llythyr tua 1875: "Rhos was a public house up to 40 years ago." Mae'n bosibl fod y deddfau yn rheoli tafarndai a gwerthu cwrw yn 1828 ac yn 1831 wedi cael dylanwad. Pasiwydd yr Alehouse Act yn 1828 a'r Beerhouse Act yn 1831 a'u diben oedd hybu cystadleuaeth rhwng y tafarnau. Roedd y mudiad dirwest hefyd yn ddylanwadol.

Er i Rhos beidio â bod yn westy cyn 1832 gellir damcaniaethu na fu fawr o newid yn yr adeilad dros y canrifoedd hyd 1861 pan roddwyd y palis o goed redwood o Ganada yn lle'r sgrin dderw wreiddiol. Efallai na thorrwyd yr adwy i'r bwthyn hyd wedi 1881 ar ôl dymchwel yr hen fwthyn ac adeiladu darn newydd y Rŵm Ffrynt ar y safle. Os oedd grisiau carreg allanol, fel y tybir, mae'n bosibl mai dyna pryd y chwalwyd nhw ac adeiladu'r Bwtri ar y safle ond mae'n fwy tebyg i hynny gael ei wneud ddechrau'r 19gan. pan addaswyd y dafarn yn fferm a bod angen bwtri i gorddi ac ati.

**Smyglo**

Yn y 18gan. pan godwyd tollau ar win, daeth smyglo yn rhemp. Pan oedd y llywodraeth angen rhagor o gyllid i dalu am ei ryfeloedd (megis Rhyfel yr UDA yn 1780) codai dollau ar wirodydd a gwin. Yn y man codwyd treth ar halen hefyd gan achosi caledi mawr, oherwydd roedd halen

yn hanfodol i halltu cig at y gaeaf. Roedd cyheiliaid cymdeithas, y ficer a'r sgweier, yn aml yn cydweithio â'r werin ac nid ystyrid smyglo yn drosedd - er y gallai pethau droi yn hyll iawn ar brydiau. Yn ôl Bob Owen (Diwydiannau Coll tud 99) aeth 13 o smyglwyr o Drwyn y Penrhyn I Ddyffryn Clwyd yn 1799 i werthu gwirod a brynwyd yn anghyfreithlon o longau.

Os nad oedd ogof gerllaw weithiau gwneid twll yn y llawr, claddu'r gasgen a'i gorchuddio â llechen. Tybed o ble yr oedd "ye daughter of Rose" yn cael ei brandi i'w werthu i Blas Brondanw yn 1771.?

B.O. tud 109. Gw. Brondanw Account Books 1710-24, 1774 – 1777. Tud 131.

**Prysurdeb Traeth Mawr**

Rhwng 1630 a 1700 treblwyd gwerth y gwinoedd a fewnforiwyd o wledydd Môr y Canoldir ac erbyn 1759 roedd masnachu ar hyd yr arfordir wedi cynyddu yn sylweddol. Er bod y gymdeithas yn dal yn hunangynhaliol dechreuwyd agor siopau megis Siop Penmorfa. Yn ól map Degwm 1840 yr oedd pandy ger Lloc Meurig ac mae'n debyg bod llawer o gynnyrch hwnnw yn ogystal â nwyddau gwlân wedi eu gwau yn cael eu hallforio. Roedd peth wmbreth o goed derw yn cael ei allforio ar hyd Traeth Mawr i adeiladu llongau rhyfel yn Oes Elisabeth a rhisgl derw ac roedd plwm yn cael ei allforio yn gynnar iawn o Maes y Plwm, Llanfrothen. Roedd gwin a chalch a glo yn cael eu mewnforio. Felly roedd Traeth Mawr yn lle prysur iawn a degau o gychod a llongau bychain yn mynd yn ôl a mlaen ar hyd iddo. Tymhorol oedd y gwaith ac yn y cyfnodau tawel byddai'r llongwyr yn troi at amaethu. Byddai angen un dyn fel criw i bob 3-5 tunnell o faint y cwch. Byddai'r morwyr ar y cyfan yn cadw o fewn golwg i'r tir ond roedd rhai o longwyr y glannau yn masnachu efo Iwerddon. Aeth y termau technegol morwrol Cymraeg yn angof gan nad oedd neb wedi eu cofnodi. Cymru a'r Môr 2015

Rhwng Ebrill a hydref yr oedd y llongwyr bychain yn hwylio, yn enwedig y llongau efo dec agored ac o dan 30 tunnell. Roedd digonedd o bysgod a bwyd môr ar gael. I drigolion y glannau. Byddai pobl yn torri mawn ar y Traeth, yn hel pabwyr i wneud canhwyllau brwyn a chynaeafu hesg a gwiail i'w blethu i wneud basgedi a matiau. Traeth Mawr oedd yn cynnal y boblogaeth ac yn wahanol i ardaloedd eraill nid oedd trigolion glannau'r Traeth yn dioddef newyn na thlodi mawr.

**Bywyd y trigolion**

Mae mwy o hanes y bobl, yn deulu ac yn ymwelwyr, ar gael yn y 18gan. nag yn y blynyddoedd blaenorol ac roedd teithwyr o Loegr yn ymweld â gogledd Cymru ac yn ysgrifennu llyfrau am eu teithiau. Ceir cofnodion eglwysi'r plwyfi yn enwi'r holl bobl oedd yn byw ac yn gweithio yn Rhos ond mae enw'r perchennog yn ddirgelwch. Dim ond arian, dodrefn ac ati a chychod sy'n cael eu rhestru yn ewyllysiau'r teulu yn yr 18gan. (Ar wahan i ewyllys Griffith Wynne, Rhos).

Mae'n bur debyg na fu fawr o newid ym mywydau'r trigolion dros y canrifoedd. Tua diwedd y 18gan. cafwyd hafau oer, gwlyb a chynaeafau gwael yn dilyn ffrwydriad llosgfynydd yng Ngwlad yr Iâ ac o ganlyniad amcangyfrifir i 20% o boblogaeth Prydain drengi.

**Bwyd Môr**

Yn ôl adroddiadau haneswyr lleol yr oedd digonedd o bysgod a chregyn yn y Traeth Mawr. Mae teithwyr" y 18gan. yn cyfeirio at gyflwr truenus y merched oedd yn hel cocos ar y Traeth ond rhaid " cofio mai byddigions cefnog o Loegr oedd yr ymwelwyr hyn a heb arfer â chaledi bywyd cefn gwlad.

Adnabyddid Penrhyn fel "cockle town" a chludid sachau o gocos ar gefn mulod cyn belled â Phenmachno i'w gwerthu. Roedd yn fwyd rhad a maethlon ac ar gael hyd yn oed mewn cyfnodau o newyn. Roedd peth wmbreth o gregyn cocos yn y tir o amgylch Rhos yn 1998.

**Adeiladu Llongau**

Erbyn 1745 yr oedd diwydiant adeiladu llongau pwysig wedi ei sefydlu yn Traeth Mawr. Gwyddys bod un slŵp, dwy frigantin, smac, wherry a cutter wedi eu hadeiladu ar lannau Traeth Mawr rhwng 1761 ac 1825. Cofnodir bod Thomas Williams yn saer llongau ac yn byw yn Rhos yn 1798, mab William Jones oedd ef. Yn ôl tystiolaeth Evan David, hen gychwr, adeiladwyd tair llong yn Rhos. Roedd un, y Neptune, yn 300 tunnell, ac mor fawr nes y methwyd â'i symud i'r dŵr a bu dwsinau o weithwyr wrthi am flwyddyn yn agor ffôs o dwnan Rhos i Bant y Cra.

Roedd adeiladu llongau yn waith arbenigol iawn, gyda sgiliau wedi eu cronni dros ganrifoedd o brofiad. Roedd y llongau yn gryf ond yn hwylus i'w trin, wedi eu hadeiladu o goed lleol, derw gan mwyaf. Byddai'r perchennog yn archebu llong a byddai'r seiri yn adeiladu model hanner maint a fyddai yn cael ei ddinistrio wedyn. Roedd y seiri llongau yn grefftwyr ardderchog ac yn gallu troi eu llaw at greu dodrefn hefyd. Nid oedd angen llawer o offer dim ond llif a stêm.

Roedd 64 o gyfranddaliadu i bob llong, wedi eu prynu rhan amlaf gan bobl leol yn wragedd, crefftwyr a llongwyr gan ddod â chyfoeth i'r ardal. Byddai'r llongau o Borthmadog yn hwylio i Hamburg, Cadiz, Newfoundland, Casablanca, Gwlad Groeg, South Shield a Waterford ac yn cludo pob math o nwyddau, yn arbennig llechi. Rhwng 1820 a 1914 llongau Porthmadog oedd y gorau yn y byd.

**Tywys**

Roedd croesi Traeth Mawr yn beryglus a rhestra cofnodion swyddogol y nifer fawr o bobl a foddwyd wrth geisio croesi. Mae un cofnod yn sôn am blentyn a foddwyd yn pysgota ac mae sôn am rhywun yn mynd i drafferth wrth yrru trol a thri cheffyl ar draws y traeth. Roedd pyllau dyfnion a thywod gwyllt ar y traeth ond y perygl mwyaf oedd y llanw a ruthrai i mewn yn gyflym. Yn stabal Glan Don y cedwid y cyrff nes i'r Crwner gyrraedd o Ddolgellau. Mae'r hanesydd lleool, Griffiths Williams yn adrodd hanes Morris Roberts, ffermwr o Benmorfa yn ceisio croesi'r Traeth ar gefn ei geffyl, gyda'i forwyn y tu ôl iddo. Suddodd y ceffyl i bwll dwfn a boddwyd y ffermwr ond achubwyd y forwyn a'r ceffyl.

Ceir hanesyn diddorol mewn llythyr a sgrifennwyd gan ŵr bonheddig o Sais o'r enw Jackson oedd yn ymweld â'r ardal ym Medi 1768. Hebryngodd foneddiges ar draws y Traeth i Benmorfa ond oedodd yn rhy hir yno. Erbyn iddo gychwyn yn ôl nid oedd y tywyswyr yn fodlon ei hebrwng oherwydd bod y llanw yn dod i mewn yn gyflym. Er hyn, mynnodd fentro. Cafodd drafferth mawr, a'i geffyl cryf a'i hachubodd. Glaniodd ger bwthyn - ac mae'n bur debyg mai Rhos oedd o gan ei fod yn sylwi bod llong ar flociau yn cael ei hadeiladu gerllaw. "At the door of the first house, near which there was a sloop upon the stocks, stood a decent-looking elderly woman." Yr oedd hen wraig wedi bod yn ei wylio a gofynnodd iddi yn Saesneg a fyddai'n ddiogel iddo groesi Traeth Bach i Dalsarnau. Roedd ganddi dipyn o Saesneg (oherwydd ymwelwyr, mae'n debyg) ac anogodd ef ymlaen yn frwd. Cafodd drafferth mawr i groesi ond cyrhaeddodd yn ddiogel ac adrodd ei hanes wrth ei gyfaill, Mr.Wynne, y Sgweiar. Drannoeth daeth y Sgweiar efo fo i'r bwthyn a holi yr hen wraig yn Gymraeg. Atebodd hi nad oedd yn poeni dim am ffawd yr ymwelydd oherwydd ni allai fod wedi croesi yn ddianaf heb fod y Diafol yn gofalu amdano ac felly byddai'n berffaith ddiogel. Bu chwerthin mawr a mwynhawyd pryd o fara a chaws. (gw.Cylchgrawn Cymd Hanes Meir. 1960 tud 367.)

(Mae'r hanesyn hwn o bosibl yn cadarnhau cred y werin mewn ysbrydion drwg a'u hymdrech i'w cadw allan o'r tŷ drwy dorri marciau ar drawstiau.)

Roedd arian da i'w gael o dywys pobl ar draws y Traeth ond roedd rhai, megis John Wesley, yn gyndyn o dalu. Dywed yn ei ddyddiadur ar 14 Ebrill 1749 "What needs is there of guides over these sands I cannot conceive. This is the third time I have crossed without any". Roedd Mr Jackson hefyd yn bur ddirmygus o'r "guides" ac yn edliw eu bod yn gor-bwyslesio'r peryglon er mwyn cael rhagor o arian.

Mae un teithwr yn son am ferch yn llamu ar gefn ceffyl i'w harwain. Roedd arwydd gyda llun o farch gwyn yn crogi gerllaw Rhos ac arno'r geiriau "A guide to the Sands" ar gyfer yr anllythrennog mae'n debyg. Tybed a oedd pyst wedi eu gosod yn y tywod i nodi'r llwybr ar draws y Traeth peryglus? Mae stori arall am Sais oedd yn falch o gwmni Cymro uniaith wrth groesi.


Gw. Bangor llsg.484, tud 89,93, (Rhos) a 355, 1778-1825).
Diwydiannau Coll (lost Industries) page 109. Gweler Brondanw Account Books 1710-24, 1774 – 1777. tud.131.

Nan Griffiths ed., Minffordd: rhwng dau draeth, (2012) pp. 29-30.Cymru a'r Môr, 2015

(Bangor ms.484, pp. 89,93, (Rhos) and 355, 1778-1825).

**Trigolion Rhosy 19eg Ganrif**

Ellis Roberts

Bedyddiwyd Ellis Roberts yn Eglwys Llanfrothen ar 17/3/1802 yn fab i Robert Pierce (ganed 1772) ffermwr, a'i wraig Susanna. Roedd Susanna yn un o Ferched y Troliau, yn cludo llechi gyda throl a cheffyl i lawr o'r chwarel i'r cychod ar afon Dwyryd, cyn dyfodiad rheilffordd y trên bach. (gw. Llafar Bro). Eu cartref oedd Gelligwiail (neu Rhiw Goch) ? Penrhyndeudraeth. Roedd yn brif "cowman" Castell Deudraeth. Mae cerdyn coffa iddo.

Priodwyd Elis Roberts a Nansi Jones ar 24 Ebrill 1827 a daethant i fyw a magu teulu yn Rhos a symudodd Sion Ifan a Sian a Gwen eu merch o Ddolbelydr i'r hen fwthyn.

Dioddefodd Ellis a Nansi Roberts aml i brofedigaeth yn ystod eu hoes. Bu iddynt 9 o blant a dim ond un, merch a'u goroesoedd nhw.

Robert 20/7/1827 Llfr (Tybir iddo farw yn ifanc gan nad oes dim golwg ohono yng Nghyfrifiad 1841.

Margaret 1829 marw 19/6/1865. Fy hen nain.

William 3/7/1831 Llfr. Yn 1874, yn 42 oed roedd yn fêt ar y Miss Thomas a John ei frawd yn gapten. Yn 1874 roedd yn gapten y sgwner Cynhaiarn a Pierce ei frawd yn fêt. Ar 17/12/1874 gadawodd ei long ym Mhorthmadog oherwydd salwch. Bu farw ymhen pythefnos a chladdwyd ef ym mynwent Treflys.

Jane 15/2/1832 Llfr. 29/5/1833 (Marw yn 18 mis oed)
John 29/5/1833
Owen 5/4/1835 Llfr
Jane 15/2/1837 Llfr**.?** Bu farw yn flwydd oed
Pierce 1838
Elis 1839 - boddodd ym Mae Biscay.
Anni 1843.

Mae llun ohoni efo'i brawd yn Lerpwl yn 1866. Ar 20/1/1868 priododd Capten Edward Jones, Gelli Grîn. Edward Jones oedd enw ei dad hefyd a bu ef yn gychwr ar afon Dwyryd ond erbyn 1841 ffermwr ydoedd (Gw. Cymru a'r Môr (1948) tud. 117-118).Claddwyd Edward Jones ym mynwent Eglwys Drindod Sanctaidd, Penrhyndeudraeth. Roedd Edward Jones yn gapten ar y Martha Percival gyda chyfranddaliadau 26/64 ynddi yn 1877.

Robert 1845/50?

Yn 1873 hwyliodd ar yr Edward Windus a daeth yn fêt ar y Shields. Yn 1874 roedd yn fêt ar long newydd y Fleetwing(19529). Ar 26/2/1875 cafodd ei fam, Nansi Roberts lythyr gan wraig tŷ lodging o Awstralia. Roedd Robert wedi hwylio yn fêt 'r Baltic ac yna i Port Adelaide, Awstralia, mordaith o dri mis. Yn Ionawr 1875 torrod ei fraich ac arhosodd mewn llety am fis cyn marw o scarletina ar 4/3/1835. Roedd gwraig y llety yn gofyn am arian i dalu am ei gladdu ond twyll oedd hyn, yn ôl Dafydd, gan y buasai ganddo gyflog da ar ôl misoedd o forio. Mae'r llythyr ar gael – un o'r ychydig ddogfennau a gadwyd.

see Llafar Bro.
Cymeraf hyn fel talfyriad am (plwyf) Llanfrothen.KL
See Cymru a r Môr (1948), pp. 117-118.

**Hanes diweddar**

Erbyn 1891 roedd Rhos yn un tŷ a David ac Ann Davies (Taid a Nain) a'u plant yn byw yno. Roedd hen nain a hen daid Ann Davies, fy nain, cyn-drigolion y prif dŷ, ill dau wedi marw: bu farw Ellis Roberts, ei thaid yn 1879 a Nansi ei wraig yn 1886. Roedd William Ifans a drigai yn yr hen fwthyn hefyd wedi marw yn 1886 ond ni bu farw ei chwaer Gwen Ifans hyd 1891 ac yn y Siambar yr oedd hi yn byw erbyn hynny, sy'n ategu'r ddamcaniaeth mai cartref i weddw neu aelodau hŷn y teulu oedd yr hen fwthyn yn wreiddiol ac wedyn y Siambar.

Tua 1969 yr oedd Atomfa Trawsfynydd yn awyddus i osod peilon yn un o'r caeau ger y tŷ. Huw, brawd fy mam, oedd yn ymdrin â'r mater, fel "pennaeth" y teulu ac roedd ef yn syrfewr Sir Feirionnydd. Heb ymgynghori â gweddill y teulu gwrthododd ganiatâd i godi'r peilon a bu'n rhaid i'r Atomfa brynu'r tŷ a'r tir er mwyn gallu gwneud hynny. Cytunwyd bod ei chwaer Maggie yn cael byw yn Rhos yn ddi-rent tra byddai byw.

Wedi iddi hi symud i gartref hen bobl gadawyd y lle yn wag ac yna, wedi iddi farw gwerthwyd a rhannwyd y dodrefn rhwng y teulu. Gadawyd i'r lle fynd â'i ben iddo. Tua 19??rhoddwyd yr eiddoar werth, nid oedd gan Merfyn na mi fodd i'w brynu ac fe'i gwerthwyd i'r chwarel.

Yn y 1980au bu si ar led bod y chwarel, sef y perchennog, yn mynd i ddymchwel yr adeilad er mwyn unioni'r ffordd a oedd bryd hynny yn arwain i'r chwarel. Llwyddwyd i'w restru gan CADW a'i ddiogelu. Wedi llawer iawn o grefu ar Wimpey prynwyd Rhos yn ôl i'r teulu yn 1995. Roedd mewn cyflwr difrifol ac wedi bod yn wag am dros ugain mlynedd. Cymerodd ddwy flynedd i drwsio ac adfer yr adeilad gan gadw yn fanwl at yr un patrwm ystafelloedd. Yr unig wahaniaeth sydd i'w weld o'r tu allan yw'r ffenestri gyda chwareli bychain ac ychwanegwyd ffenest yn lle yr hen "ddrws ffrynt" i gyd-weddu â'r ffenest arall. Hefyd gosodwyd drws cefn newydd yn lle y ffenest fechan yn y Pantri.

**Atodiad**

Yn anffodus, bu farw Nan Griffiths ym 2017. Cafwyd hyd i'r ddogfen hon mewn cyflwr angyflawn gan ei merch Angharad. Gwerthwyd Rhos ddwywaith ers marwolaeth Nan, a phrynwyd y tŷ gennyf i a'm partner Robert Kaminsky ym mis Hyfref 2021. Ni sydd wedi cael y fraint a'r pleser o fyw yma ers hynny.
Karen Liljenberg, Mehefin 2025